Adroddiad i:	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod:	Mawrth 5ed, 2025
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cynghorydd Emrys Wynne/ Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Awdur yr adroddiad:	Gerallt Lyall, Swyddog Iaith Gymraeg,
Teitl:	Categoreiddio lefelau'r Gymraeg mewn Disgrifiadau Swyddi

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ddiweddariad ar Gategoreiddio lefelau'r Gymraeg mewn Disgrifiadau Swyddi ac ar greu cronfa ddata i gasglu lefelau'r Gymraeg ar gyfer pob swydd yn y cyngor.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i bob swydd yn y Cyngor gael eu categoreiddio i un o bedwar categori:

- Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol,
- Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol,
- Mae angen dysgu sgiliau iaith Gymraeg ar ôl penodi,
- Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol.

Gan fod anghenion pob rôl yn amrywio o ran y sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen mae Comisiynydd y Gymraeg yn hyrwyddo fel arfer dda i gynnwys Lefel yn ogystal â chategorïau Hanfodol a Ddymunol er mwyn rhoi mwy o eglurder a hyblygrwydd.

Un o amcanion Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor yw Categoreiddio sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer pob rôl o fewn y cyngor fel rhan o ofynion y cyngor gyda Safonau'r Gymraeg o ran recriwtio.

4. Beth yw’r argymhellion?

Nodi’r diweddariad yn adran 5.1 isod ar Gategoreiddio lefelau’r Gymraeg mewn Disgrifiadau Swyddi.

5. Manylion yr adroddiad

Rydym wedi:-

• Cyhoeddi disgrifiadau ar gyfer y lefelau ar wefan Sir Ddinbych, ynghyd â gwybodaeth fanwl i reolwyr er mwyn asesu gofynion iaith Gymraeg swyddi o fewn y Cyngor Sir.
• Diwygio’r Ffurflen Rheoli Swyddi Gwag i sicrhau bod rheolwyr yn dewis lefel Gymraeg priodol ar gyfer y swydd, gan ddefnyddio’r wybodaeth ar y wefan neu drwy gysylltu â’r Swyddog Iaith Gymraeg am gyngor os oes angen.
• Diwygio’r ddogfen Disgrifiad Swydd fel bod swyddi yn y dyfodol yn cael lefel Iaith Gymraeg wedi'i neilltuo yn y ddogfen.
• Anfon e-bost at reolwyr a goruchwylwyr ar draws y cyngor yn egluro’r broses newydd.

Mae’r Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio gyda’r holl reolwyr i gasglu lefelau Iaith Gymraeg ar gyfer pob swydd yn y cyngor. Bydd y darn hwn o waith yn cymryd amser i’w gwblhau, ac unwaith y bydd gennym yr holl fanylion, byddwn yn storio’r wybodaeth hon fel dogfen fyw a’i diweddaru’n barhaus.

Mae’r adroddiad hwn yn gweithredu fel diweddariad i’r Pwyllgor Llywio i drafod y camau a gymerwyd eisoes.

6. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n un o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

7. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Dim cost.

8. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

Ddim yn berthnasol

9. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda'r Aelod Arweiniol o'r Cabinet dros y Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim yn berthnasol

11. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Gall ychwanegu gofyniad Lefel atal pobl rhag gwneud cais os nad ydynt yn hyderus yn eu sgiliau Cymraeg eu hunain. Er mwyn lleihau'r risg yma crëwyd disgrifiadau Lefel i roi diffiniad ymarferol o bob lefel. (Gweler y ddogfen Lefelau Sir Ddinbych).

Efallai y bydd rheolwyr hefyd yn amharod i nodi lefel uchel o Gymraeg fel un hanfodol mewn disgrifiad swydd, gan ofni na fydd ymgeiswyr yn gwneud cais. Er mwyn lliniaru hyn, mae'r Swyddog Iaith Gymraeg yn trafod gyda Rheolwyr sut y gellir defnyddio'r lefelau, gan egluro y gellir ychwanegu manylion pellach yn y Disgrifiad Swydd, er enghraifft, Lefel 2 – Sgiliau siarad yn Hanfodol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**